

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Cyllid](#) ar [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25](#).

This response was submitted to the [Finance Committee](#) consultation on the [Welsh Government Draft Budget 2024-25](#).

WGDB_24-25 09 : Ymateb gan: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
Response from: Future Generations Commissioner





Trwy e-bost

27 o Dachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod fy swyddfa a'm rhagflaenydd wedi craffu'n fanwl ar brosesau cyllideb Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol fel ysgogiad angenrheidiol i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried a bod tystiolaeth ohoni drwyddi draw. Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i gwrdd â chi yn gynharach yn y flwyddyn i drafod y rôl bwysig rydym yn ei chwarae ar y cyd yn y gwaith craffu hwn. Roeddwn innau hefyd yn croesawu'r cyfle i'm swyddfa gael ei chynrychioli yn eich sesiwn rhanddeiliaid yn Wrecsam.

Yn ogystal, rwyf wedi cyfarfod â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol deirgwaith, gan gynnwys cyfarfod adeiladol â chomisiynwyr eraill. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfod rhagarweiniol gyda swyddogion cyllideb Llywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod y cyfnod ariannol anodd sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau ledled Cymru. Bydd gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (yn enwedig y pum ffordd o weithio a chyflawni yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru) wedi'i chymhwyso yn yr ymarfer arbedion diweddar a gynhaliwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Mae'n dda gweld ymrwymiad parhaus i gyflwyno gwasanaethau rheilffyrdd newydd i Gymru. Mae hon yn enghraifft dda o wariant ataliol gyda golwg hirdymor a fydd hefyd yn dod â buddion uniongyrchol i genedlaethau presennol. Mae diogelu gwasanaethau iechyd yn bwysig, fodd bynnag, maent yn parhau i ddi-ddoddef pwysau cyllidebol er gwaethaf y cyllid hwn. Fy marn i yw bod angen newid hirdymor i gadw pobl yn iach ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus i gydweithio fel yr af ymlaen i'w amlinellu isod. O'r ffordd yr ydym yn teithio i'r hyn yr ydym yn ei fwyta a'i yfed i'r amgylchedd o'n cwmpas, mae angen i ni gydweithio i gadw pobl yn iach er mwyn rhyddhau pwysau ar ein system iechyd yn y dyfodol a gwella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Rwyf wedi cyhoeddi [Cymru Can](#) yn ddiweddar, yn amlinellu'r rhaglen waith ar gyfer fy nhymor fel comisiynydd. Mae hyn wedi'i lunio drwy wrando ar bobl, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Nodais bum cenhadaeth yr wyf yn bwriadu eu cyflawni yn fy amser fel comisiynydd, pob un â ffocws penodol ar gyfer ein gwaith ar graffu ar y gyllideb flynyddol.



Yn y flwyddyn i ddod byddaf yn edrych yn agosach ar sut yr eir i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru i ddeall a yw gwariant cyhoeddus yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i bobl Cymru.

1. Gweithredu ac Effaith

Bydd fy nghenhadaeth gyffredinol yn canolbwyntio ar sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei chyflawni i'w llawn botensial ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru. Fel rhan o hyn, byddaf yn cynghori pob corff cyhoeddus ar sut y dylent osod eu cyllidebau, ac mae hyn yn cynnwys parhau i adolygu sut mae'r broses ar gyfer pennu cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r Ddeddf.

Canfu ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori o hyd yn y broses o wneud penderfyniadau ar y gyllideb yn y ffordd y byddem yn disgwyl ei gweld. Mae hyn yn cynnwys diffyg gwreiddio iaith y Ddeddf yn y naratif o amgylch y gyllideb. Hoffwn weld arwydd clir o sut mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei chyllideb mewn ffordd sy'n cyfrannu at y saith Nod Llesiant ac amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru ei hun fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae wedi bod yn aneglur o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu defnyddio yn y broses gwneud penderfyniadau. Byddwn yn edrych eto am dystiolaeth o hyn yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25. Er enghraifft, wrth roi syniadau hirdymor ar waith, hoffwn atgoffa'r Pwyllgor o gyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru y llynedd ynghylch ariannu cyrff cyhoeddus a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:

- “natur tymor byr rhai llifoedd cyllid, sy'n rhwystro gallu [cyrff cyhoeddus] i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y tymor hwy”;
- “diffyg hyblygrwydd o ran sut y gellir gwario rhai rhannau o gyllid grant”; a
- y ffaith mai “dim ond yn hwyr iawn yn y dydd neu'n hwyr yn y flwyddyn ariannol y caiff cyrff cyhoeddus eu hysbysu bod cyllid ar gael.

Mae cyllid tymor byr yn cael ei ddyfynnu amlaf gan gyrff cyhoeddus fel y rhwystr mwyaf i feddwl hirdymor yng Nghymru. Amlygwyd hyn yn gryf hefyd yn yr ymarfer cynnwys a arweiniodd at Cymru Can.



Bydd gennyf ddi-ddordeb mewn deall i ba raddau y mae defnyddio tueddiadau a rhagwelediad yn y dyfodol wedi helpu i benderfynu i ble y mae angen i gyllidebau fynd.

Nid yw'r diffiniad o atal yn dal i gael ei ddefnyddio ym mhroses y gyllideb gymaint ag yr hoffem. Mae angen inni weld newid i fodel ataliol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, fel yr amlinellir ymhellach yn y pwyntiau isod mewn perthynas â'm cenadaethau eraill, a bydd hyn yn gofyn am ddull strategol o osod cyllideb ataliol sy'n edrych i'r hirdymor. Deallaf fod gwaith archwiliol ar gyllidebu ataliol drwy lens hinsawdd a natur ar y gweill, ond mae angen i hyn symud ymlaen yn gyflym ac mae fy nhîm yma i helpu gyda hyn.

Amlygodd Adolygiad Adran 20 fy swyddfa hefyd mai atal yw un o'r ffyrdd o weithio sy'n cael ei deall leiaf ac mae gweision sifil yn aml yn ei chael hi'n anodd ei gymhwyso'n ymarferol yn eu gwaith. Mae diffyg ymwybyddiaeth hefyd ymhlith gweision sifil o'r diffiniad o atal y cytunwyd arno rhwng fy swyddfa a Llywodraeth Cymru.

Y diffiniad o atal y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru yw bod atal yn gweithio mewn partneriaeth i gydgyhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu. Gan rannu'n bedair lefel, gall pob lefel leihau'r galw am y nesaf:

- Atal sylfaenol (PP) – Meithrin gwytnwch – creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Agwedd gyffredinol.
- Atal eilaidd (SP) – Targedu gweithredu tuag at feysydd lle mae risg uchel o broblem. Dull wedi'i dargedu, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar*.
- Atal trydyddol (TP) – Ymyrryd unwaith y bydd problem, i'w atal rhag gwaethygu a'i atal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrryd.
- Gwariant aciwt (AS) – Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn ond sy'n gwneud ychydig neu ddim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol.

* Mae cyffredinoliaeth flaengar yn benderfyniad i ddarparu cymorth i bawb, gan roi llais a diddordeb personol i bawb a phopeth, ond mae'n cydnabod y bydd angen mwy o gymorth ar y bobl neu'r ardaloedd hynny sydd â mwy o anghenion.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Demos, "[Refeniw, Cyfalaf, Atal Fframwaith Gwariant Cyhoeddus Newydd ar gyfer y Dyfodol](#)" (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023) sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd llywodraethau'n diffinio'r hyn a olygwn wrth 'wariant ataliol'. Byddwn yn annog y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad wrth iddo fonitro'r Gyllideb Ddrafft.



O flynyddoedd blaenorol, nid ydym yn gweld effaith aseddig penderfyniadau cyllidebol o hyd yn nogfennau'r gyllideb, fel yr Aseiad Effaith Integredig Strategol (SIIA). Dyma lle yr hoffem weld cysylltiadau cliriach yn ôl ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, y Nodau Llesiant ac at gyflawni'r llwybr a nodir yn y gyllideb garbon bresennol ac, wrth symud ymlaen, at gyflawni'r llwybr at natur gadarnhaol. Cymru. Byddwn yn parhau i roi cyngor ar y broses SIIA sy'n datblygu er mwyn sicrhau, er enghraifft, ei bod yn ystyried effaith gronol ac yn edrych ar effaith penderfyniadau ar draws y pedwar dimensiwn llesiant.

2. Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur

Mae fy swyddfa wedi olrhain cynnydd ar ddatgarboneiddio o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Er fy mod yn credu bod hon yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r gyllideb, rwyf yn awr yn bwriadu cymryd golwg ehangach ar sut y mae'r gyllideb yn ymateb i'r argyfyngau deul, brys o newid yn yr hinsawdd a cholli byd natur. Yn fy rhaglen waith newydd, rwyf wedi ei gwneud yn genhadaeth i gefnogi cyflawniad y dyhead ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 ac i Gymru atal dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2030 yn gysylltiedig ag un o'r cerrig milltir Llesiant Cenedlaethol ac ymrwymiad 30x30 o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y cytunwyd arno yn COP15. Bydd cyrraedd y cerrig milltir pwysig hyn yn gofyn am ymagwedd Tîm Cymru a bydd gan bob corff cyhoeddus ran i'w chwarae.

3. Diwylliant a'r Iaith Gymraeg

Mae llesiant diwylliannol yn gyfartal â llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gydnabod y rôl enfawr y mae'n ei chwarae wrth gefnogi pobl a'r blaned. Bydd fy rhaglen waith yn cynnwys cenhadaeth i fynd i'r afael â'r canfyddiad o werth ein diwylliant i'n llesiant. Yn rhy aml o lawer, gwasanaethau diwylliannol fel canolfannau hamdden a chyfleusterau celfyddydol yw'r rhai sy'n cael eu taro galetaf ar adegau o bwysau cyllidebol ar draws pob lefel o lywodraeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dyma rai o'r union bethau sy'n ein cadw'n iach ar adegau o angen a phwysau costau byw. Byddaf yn olrhain sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau allweddol fel y rhain yn parhau i fod ar gael i bobl Cymru, gan gynnwys goblygiadau penderfyniadau cyllidebol i awdurdodau lleol a chyirff diwylliannol cenedlaethol.

4. Economi Llesiant

Bydd fy nhîm a minnau'n gweithio i helpu i drawsnewid Cymru i economi sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf gyda chymunedau, busnes a llywodraethau ar bob lefel yn helpu i wneud i hyn ddigwydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu Cymru lewyrchus fel cymdeithas arloesol,



gynhyrchiol, a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur – gan bwysleisio sgiliau, addysg a gwaith teg wrth gynhyrchu cyfoeth. Byddaf yn edrych gyda diddordeb i ba raddau y mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn symud i'r un cyfeiriad, o ran blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf a reffeniw.

5. Iechyd a Llesiant

Fy ffocws cyllidebol o dan y genhadaeth hon fydd sicrhau bod buddsoddiad digonol yn y pethau sy'n ein cadw'n iach – penderfynyddion ehangach iechyd. Mae angen i ni ddefnyddio pob lifer sydd gennym a chofleidio 'iechyd ym mhob polisi' i helpu i gadw pobl yn iach, yn feddylol ac yn gorfforol. Bydd ein gwaith craffu yn edrych ar fwy na'r gwasanaeth iechyd yn unig drwy ystyried iechyd a llesiant gyda mwy o ffocws ar atal ac integreiddio rhwng meysydd gwasanaeth. Yng Nghymru, rydym mewn sefyllfa i ddefnyddio atebion arloesol, hirdymor i wella bywydau a mynd ar y blaen i broblemau iechyd drwy ganolbwyntio nid yn unig ar y GIG a byrddau iechyd, ond ar y gwasanaethau cyhoeddus ehangach sy'n cael effaith ar iechyd ein cenedl – y 'model cymdeithasol o iechyd'.

Edrychaf ymlaen at rannu'r hyn yr wyf yn ei ddysgu gyda'r Pwyllgor yn y blynyddoedd i ddod ar y materion pwysig hyn. Pe byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor, byddwn yn hapus i drefnu sesiwn wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor gyda chyingor ar sut i graffu ar y gyllideb drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru